

Yn dilyn fy e-bost ar 22 Awst 2014, rwyf nawr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth a gyflwynwyd gennych ar 21 Awst 2014, sef:

*1. Allech chi nodi cyfanswm y contractau a roddwyd allan i dendr gan eich sefydliad yn ystod y ddau gyfnod canlynol:*

*a) 1 Ionawr 2010 – 31 Rhagfyr 2010 (neu'r 12 mis agosaf sydd ar gael – nodwch) a*

*b) 1 Ionawr 2013 – 31 Rhagfyr 2013 (neu'r 12 mis agosaf sydd ar gael - nodwch)*

*2. Ar gyfer y naill gyfnod a'r llall, nodwch faint o'r contractau hyn a ddyfarnwyd ar ôl proses dendro lle mai dim ond un contractwr a gyflwynodd gynnig.*

Dyma fy atebion i'ch cwestiynau:

1a) Yn y cyfnod a nodwyd uchod, y cyfanswm yw 26 contract

1b) Yn y cyfnod a nodwyd uchod, y cyfanswm yw 40 contract

2) 1 Ionawr 2010 – 31 Rhagfyr 2010 = 14 ac 1 Ionawr 2013 – 31 Rhagfyr 2013 = 15

Nodwch nad ydym yn arfer cofnodi dyddiad hysbysu contract ein tendrau. Mae'r ffigurau uchod hefyd yn cynnwys y contractau a ddyfarnwyd yn ystod pob cyfnod penodedig (byddai mwyafrif y tendrau perthnasol wedi'u cyhoeddi ym mhob cyfnod penodedig hefyd).

Mae gennym gofnod ar gyfer tri contract arall lle cyhoeddwyd y tendr yn 2009 ond na chafodd ei ddyfarnu tan 2010, a dau contract a nodwyd uchod eu bod wedi rhoi i dendr yn 2013 ond heb eu dyfarnu tan 2014.

O'r ffigurau a gasglwyd wrth baratoi'r ymateb hwn, nid ydym wedi cynnwys contractau yn ôl y gofyn nac ymarferion cystadleuaeth pellach ar gontractau fframwaith cyfredol gan eu bod y tu allan i gwmpas eich cais, ond rhowch wybod i mi os nad yw hynny'n wir. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys gwahoddiadau i gynnig pris am gontractau gwerth llai, ac eithrio'r rhai lle cafwyd pris ar lafar (sy'n werth llai na £1,000).

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os ydych yn dymuno cwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch ataf.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Ian Phillips